OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1609

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

## RHAN 4

### Cymryd mesurau ataliol mewn mangreoedd rheoleiddiedig

**Canllawiau ynghylch cymryd mesurau rhesymol**

**18.**—(1) Rhaid i berson y mae'n ofynnol iddo gymryd mesurau rhesymol o dan reoliad 16(1)**[**[F1], 17(1) neu 17A**]** roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch y mesurau hynny.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) cânt ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1), a

(b) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau (ac unrhyw ddiwygiadau).

(3) Caiff canllawiau o dan y rheoliad hwn gynnwys (drwy gyfeirio neu drosi) ganllawiau, codau ymarfer neu ddogfennau eraill a gyhoeddir gan berson arall (er enghraifft, cymdeithas fasnach, corff sy'n cynrychioli aelodau o ddiwydiant neu undeb llafur).

(4) Mae canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan—

(a) paragraff (1) o reoliad 20 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020(**1**), neu

(b) paragraff (1) o reoliad 24 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020(**2**),

i'w trin fel pe baent yn ganllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwn.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 18(1) wedi eu hamnewid (20.1.2021) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/57), rhlau. 1(2), **2(5)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 18 mewn grym ar 20.12.2020 (fel y diwygiwyd gan O.S. 2020/1610, rhl. 2(2)), gweler **rhl. 1(3)**

(**1**) O.S. 2020/1149 (Cy. 261).
(**2**) O.S. 2020/1219 (Cy. 276), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1409 (Cy. 311), O.S. 2020/1477 (Cy. 316) ac O.S. 2020/1522 (Cy. 326).

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/02/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.